



## Eglurhad

Mae **Datblygu Cynllun Gwaith Partneriaeth** yn ganllaw i'r rheini sy'n sefydlu partneriaeth fwyd. Mae cael **Cynllun Gwaith Partneriaeth** yn ofyniad ar gyfer aelodaeth o'r Rhwydwaith Lleodedd Bwyd Cynaliadwy.

## Cyflwyniad

Mae **Cynllun Gwaith Partneriaeth** yn amlinellu'r camau y byddwch yn eu cymryd a'r targedau rydych yn bwriadu eu gwireddu ar eich taith i greu partneriaeth fwyd gref a chadarn. Mae'n disgrifio gweithgareddau'r bartneriaeth ei hun yn hytrach na gwasanaethau neu brosiectau a fydd yn cael eu cyflawni gan y bartneriaeth.

## Beth rydyn ni'n ei wneud

- Edrych drwy thema **Adeiladu Partneriaeth Fwyd** a thema **Datblygu Strategaeth Fwyd** o'r Pecyn Cymorth SFP.
- Disgrifir ystod o **brosesau** o **Ymgysylltu** a **Gweledigaeth** i **Asesiad y System Fwyd**, **Ymgynghoriad y System Fwyd**, **Datblygu Strategaeth Fwyd** a **Chynllunio Camau Gweithredu**.
- Mae set o adnoddau ymarferol a chanllawiau yn cyd-fynd â phob proses er mwyn rhoi syniad clir i chi o'r hyn sydd ynghlwm a'r hyn y mae eraill wedi'i wneud.
- Trafod a phenderfynu pa weithgareddau sy'n bodloni eich anghenion orau.
- Cofnodi'r camau rydych yn bwriadu eu cymryd; targedau rydych wedi'u gosod i chi eich hun; amserlen a pherson neu sefydliad arweiniol yng **Nghynllun Gwaith y Bartneriaeth Fwyd**
- Cyflwyno eich **Cynllun Gwaith**, ynghyd â **Chrynodeb o'ch System Fwyd** (gweler adnodd 10,11 a 12), dogfen Cylch Gorchwyl a thystiolaeth o gyfarfodydd i **Aelodaeth Lleodedd Bwyd Cynaliadwy**.

## Beth i'w ystyried

- Meddyliwch faint o gapasiti sydd gennych. Cofiwch y gellir cael cymorth ychwanegol weithiau gan fyfyrwyr, gwirfoddolwyr, mudiadau eraill neu awdurdodau lleol.
- Bydd y cyd-destun lleol yn cael effaith fawr wrth siapio blaenoriaethau lleol a faint o bwys a roddwch i wahanol weithgareddau.
- Bydd treulio amser yn ymgysylltu ac adeiladu ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid yn gynnwys yn cynnig sylfaen gref i adeiladu arni ac i dyfu.
- Gall y broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adeiladu partneriaeth fwyd fod mor ddefnyddiol a phwysig â'r strategaeth fwyd ei hun.
- Mae'r enghraifft isod o Gynllun Gwaith y Bartneriaeth Fwyd yn rhoi ambell syniad i chi. Does dim rhaid i chi wneud hyn i gyd. Gwnewch yn siŵr ei fod yn gweithio i chi.

## Enghraifft o Gynllun Gwaith y Bartneriaeth Fwyd

Amcanion	Camau gweithredu	Targedau	Amserlen	Pwy sy'n arwain
<b>I feithrin ymgysylltiad eang gan randdeiliaid</b>	Nodi rhanddeiliaid posib ar draws pob un o 6 maes allweddol SFC	Drafftio rhestr o randdeiliaid	Diwedd mis 2	
	Cwrdd ag arweinwyr adrannau awdurdodau lleol i amlinellu arlwy'r bartneriaeth fwyd, gwrando ar farn a cheisio ymgysylltu	Cwrdd ag uwch arweinwyr mewn 4 adran	3 mis cyntaf	
	Ffurio gweithgor y bartneriaeth fwyd gyda chylch gorchwyl clir	Aelodau'n cynrychioli 6 maes allweddol	Erbyn diwedd mis 5	
	Cwrdd 1:1 gyda rhanddeiliaid allweddol eraill	Cwrdd â 10 o randdeiliaid allweddol	3 mis cyntaf	
	Mynychu fforymau cyfredol i godi ymwybyddiaeth	Mynychu 5 fforwm	6 mis cyntaf	
<b>I sicrhau bod y bartneriaeth fwyd yn adlewyrchu ystod eang o safbwyntiau a phersbectif lleol</b>	Cynnal grwpiau ffocws gyda lleisiau sydd ddim yn cael eu clywed yn aml. E.e. Pobl ag anawsterau dysgu; grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; Teuluoedd incwm isel; digartref; ceiswyr lloches	5 grŵp ffocws	3-6 mis	
	Cynnal arolwg electronig o breswylwyr	500 o ymatebion	6 mis	
	Mapio mentrau sy'n bodoli'n barod sy'n cwmpasu'r holl faterion allweddol	Drafftio map yn barod ar gyfer yr uwchgynhadledd fwyd	6 mis	
<b>Cyd-greu gweledigaeth, strategaeth a chynllun gweithredu bwyd</b>	Cynllunio a chynnal uwchgynhadledd fwyd	70 o bobl yn mynychu o ystod eang o sectorau a chefnidiroedd	6 -9 mis	
	Sefydlu gweithgorau ar faterion allweddol a chwrdd bob dau fis	4 grŵp wedi'i sefydlu	9-12 mis	
	Ymgynghori ar y camau gweithredu drafft ar gyfer pob mater allweddol gyda rhanddeiliaid	Cynllun gweithredu sy'n cwmpasu'r 6 maes.	9-12 mis.	